

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cynllun Toiledau Cymunedol - Cwestiynau cyffredin

Beth yw'r cynllun toiledau cymunedol?

Mae'r Cynllun Toiledau Cymunedol yn cael ei ariannu a'i reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'n caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio cyfleusterau toiled i gymeradwyo busnesau lleol yn ystod eu horiau agor.

Mae busnesau sy'n cofrestru ar gyfer y cynllun yn cytuno i wneud eu toiledau ar gael i'r cyhoedd am ddim heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu neu'n defnyddio eu gwasanaethau. Bydd yn ofynnol i aelodau'r cynllun gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygyrch ac wedi eu stocio'n dda a byddant yn derbyn taliad blynyddol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i uchafswm o £500 (pro rata).

Beth yw'r manteision i fusnesau sy'n ymuno â'r cynllun toiledau cymunedol?

Mae busnesau sy'n rhan o'r cynllun toiledau cymunedol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn cael eu hybu fel lleoliad toiledau cymunedol.

Mwy o ymwelwyr yn y busnes wrth i fwy o bobl fynd i mewn i'r eiddo a gallent brynu neu ddefnyddio'r gwasanaeth.

Sut ydw i'n ymgeisio i ymuno â'r cynllun toiledau cymunedol ar y cyd?

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'r cynllun yn Sir Conwy, llenwch y ffurflen gais isod.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen gais wedi'i llenwi, bydd swyddogion yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn cysylltu â chi i drafod y cais ac asesu addasrwydd i ymuno â'r cynllun.

Mae'r meini prawf asesu yn cymryd i ystyriaeth oriau agor, lleoliad, pellter i doiledau cyhoeddus a busnesau eraill ar y cynllun, math, cyflwr ac ansawdd cyfleusterau toiledau a pholisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas a chyfredol.

Wrth ymuno â'r cynllun, mae'n rhaid i fusnesau:

- Bod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.
- Arddangos arwydd yn ffenestr y busnes, a ddarparwyd gan y Cyngor, gan nodi cyfranogiad yn y cynllun toiledau cymunedol.
- Cytuno i gael eu harchwilio o leiaf unwaith y flwyddyn, i asesu addasrwydd parhaus ar gyfer aelodaeth y cynllun.

This document is also available in English.

Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen ar gael drwy gais.

Cais ar gyfer Cynllun Toiledau Cymunedol

Enw'r busnes		
Cyfeiriad y busnes		
Enw perchennog / rheolwr / cynrychiolydd y busnes		
Rhif ffôn cyswllt		
Nifer a math o doiledau ar gael		
Gwryw		
Benyw		
Unrhywiol / niwtral o ran rhywedd		
Cyfleusterau newid babi	Oes / Nag oes	
Mynediad i'r anabl / cadeiriau olwyn		
Oriau agor y busnes		
Agored drwy'r flwyddyn neu dymhorol (gaeaf / haf yn unig) - nodwch os gwelwch yn dda		
Dydd Llun		
Dydd Mawrth		
Dydd Mercher		
Dydd Iau		
Dydd Gwener		
Dydd Sadwrn		
Dydd Sul		

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi at:

Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cynllun Toiledau Cymunedol, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN

Neu ei hanfon dros e-bost at: affch@conwy.gov.uk